

2022



CYNGOR FFOADURIAID CYMRU

PWY YDYN NI?

BETH YDYN NI'N EI WNEUD?



CROES I GYNGOR FFOADURIAID CYMRU

EIN GWELEDIGAETH

Ein gweledigaeth yw creu Cymru lle mae ceiswyr lloches a ffoaduriaid yn cael eu croesawu, eu parchu, ac yn cael mynediad i amddiffyniad, diogelwch ac urddas.

EIN CENHEDAETH

Gwella bywydau ceiswyr lloches a ffoaduriaid trwy ddarparu cyngor arbenigol a chymorth ymarferol a chodi llais er mwyn dylanwadu'n gadarnhaol ar ganfyddiad y cyhoedd.



Andrea Cleaver
Prif Swyddog Gweithredol

GWASANAETH NODDFA CYMRU



Mae Gwasanaeth Noddfa Cymru (WSS) yn helpu Ceiswyr Lloches i ddeall eu hawliau a chael y cymorth sydd ei angen arnynt ar adegau hanfodol yn eu taith. Rydym yn partneru â 5 sefydliad arall (DPIA, EYST, BAWSO, Asylum Justice, a Tros Gynnal Plant) i sicrhau bod ceiswyr lloches yn gallu cael mynediad at gyngor cyfreithiol, gwasanaethau arbenigol i fenywod, gwasanaethau pobl ifanc, ac eiriolaeth a arweinir gan gleientiaid.

Mae ceiswyr lloches yn derbyn:

- Gwybodaeth un-i-un am eu hawliau gan weithiwr achos arbenigol cofrestredig OISC,
- Cefnogaeth wyneb yn wyneb ar gyfer materion brys.

Mae Ceiswyr Lloches yn cael cymorth ar faterion fel:

- Lliniaru amddifadedd, a chael mynediad i dai diogel,
- Cyfeirio pobl i herio penderfyniadau lloches annheg,
- Sut i gael mynediad at gyfleoedd addysg, iechyd, cymdeithasol a chwarae i blant a'u teuluoedd.

GWASANAETH SYMUD YMLAEN




Mae ychydig dros hanner y ceiswyr lloches yn cael penderfyniad cadarnhaol ac yn cael eu derbyn ar gyfer statws ffoadur. Ond dim ond 28 diwrnod sydd ganddynt i adael llety lloches a dod o hyd i dai, cyflogaeth a modd i gynnal eu hunain.

Yn ystod y cyfnod hwn, mae digartrefedd yn bosibilrwydd gwirioneddol. Mae ein Tîm Symud Ymlaen yn darparu cefnogaeth hanfodol yn y cyfnod hwn.

Gall ffoaduriaid dderbyn:

- Help i agor cyfrifon banc, cyrchu tai, a chymorth ariannol.
- Hyfforddiant a gweithdai arbenigol i'w helpu i mewn i addysg a chyflogaeth.
- Cefnogaeth i integreiddio.



GWERSI SAESNEG



Gall rhuglder yn yr iaith Saesneg fod yn rhwysr i lawer o'n cleientiaid.

Mae ein gwersi Saesneg yn cefnogi ffoaduriaid i:

- Datblygu eu sgiliau iaith,
- Datblygu eu gwybodaeth am fywyd yng Nghymru,
- Ennill hyder a sgiliau cymdeithasol i'w helpu i integreiddio i gymunedau.



PROSIECT CHWARAE



Ar ôl cael eu gorfodi i ffoi o'u cartref i geisio diogelwch, mae llawer o blant yn cyrraedd yn ofnus ac heb y gallu i gyfathrebu eu teimladau.

Mae ein tîm o weithwyr Datblygu Chwarae yn creu mannau diogel a chyfeillgar i leihau eu trawma a'u helpu i gael hwyl.

Mae'r tîm yn:

- Helpu plant i gael hwyl a dod yn unigolion hyderus,
- Eu cefnogi gyda thrawma a phryder,
- Eu paratoi ar gyfer dysgu yn yr ysgol,
- Eu helpu i deimlo'n hapusach ac yn fwy cartrefol.



PROSIECT CYFLOGAETH



Mae ein Prosiect Cyflogaeth yn helpu Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid i ddod yn fwy cyflogadwy ac integreiddio'n well i fywyd yng Nghymru.

Mae'r gwasanaethau'n cynnwys:

- Cefnogaeth gydag ysgrifennu CV a ffurflenni cais am swydd,
- Datblygu technegau cyfweiliad,
- Adnabod cryfderau a sgiliau,
- Hyfforddiant digidol,
- Cydgysylltu â darparwyr gwasanaethau ac addysg perthnasol.



CANLLAWIAU LLOCHES



Mae'r Canllawiau Lloches yn brosiect sy'n ceisio galluogi a rhoi hyder i unigolion sy'n ceisio lloches trwy roi mynediad i wybodaeth am eu hawliau a'r gwasanaethau sydd ar gael. Mae'r canllawiau, a ddarperir gan wirfoddolwyr hyfforddedig sydd â phrofiad byw mewn rhai achosion, yn esbonio'r system lloches mewn ffordd sy'n hygyrch ac yn hawdd ei deall.

Mae'r gwasanaethau yn:

- Rhoi haen ychwanegol o gefnogaeth i geiswyr lloches,
- Rhoi mynediad i wybodaeth,
- Rhoi gwybod i bobl am eu hawliau,
- Cael eu darparu gan unigolion sydd â phrofiad byw,
- Ar gael mewn nifer fawr o ieithoedd cymunedol,
- Galluogi trwy gydol y daith loches,
- Cael eu cyflwyno mewn sesiynau 1-i-1 a grŵp,
- Cyfeirio at sefydliadau eraill am gymorth pellach.

CEFNOGAETH



CYNLLUN AILSEFYDLU

Rydym yn cefnogi pobl trwy'r llwybrau adsefydlu Syria ac Afghanistan. Gan ddarparu cymorth wedi'i deilwra o amgylch iechyd, iaith, addysg, a chymorth ariannol, rydym yn helpu teuluoedd i integreiddio i'w cymdogaethau lleol.



POLISI AC YMGYRCHU



Mae ceiswyr lloches a ffoaduriaid yn dod â sgiliau ac amrywiaeth sy'n cyfoethogi Cymru, ond weithiau gallant deimlo nad oes croeso iddynt.

Rydym yn herio rhethreg gwrth-ffoaduriaid ac arferion gelyniaethus i sicrhau bod y cyhoedd yn cynyddu eu dealltwriaeth o fudo.

Yng Nghyngor Ffoaduriaid Cymru, rydym yn:

- Sicrhau bod lleisiau Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid yn cael eu clywed,
- Darparu tystiolaeth o brofiadau bywyd pobl,
- Eirioli dros amddiffyn hawliau Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid,
- Hyrwyddo'r cyfraniadau cadarnhaol y mae Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid yn eu gwneud.

DULL STRATEGOL



Rydym yn dal prif gontract Llywodraeth Cymru ar gyfer cymorth lloches yng Nghymru, ac ar gyfer gwasanaethau Symud Ymlaen. Rydym yn derbyn cyfeiriadau gan Migrant Help i gefnogi ffoaduriaid newydd. Mae hyn yn golygu bod cleientiaid yn ein hystyried fel y sefydliad gorau, ac rydym yn gweld tua 3,000 o bobl bob blwyddyn.

Rydym yn eistedd ar y bwrdd strategol i sicrhau y gallwn ddod â'n mewnwelediadau o Gymru ac eistedd ar fforymau fel: Grŵp Gweithredol Clymblaid Ffoaduriaid Cymru, Tasglu Lloches a Ffoaduriaid Llywodraeth Cymru, Partneriaeth Ymfudo Strategol Cymru, Grŵp Ymgysylltu Strategol y Swyddfa Gartref, Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector, a fforymau Diogelu.



DEWCH I SIARAD Â NI



Rydyn ni yma i helpu. Rydym yn gweithio ledled Cymru gyda swyddfeydd yng Nghaerdydd, Casnewydd, Abertawe a Wrecsam gyda grwpiau cymunedol a chanolfannau galw heibio.

Cysylltwch â'n swyddfa:

Caerdydd

120-122 Stryd Broadway, Caerdydd, CF24 1NJ

Ffôn: 0808 196 7273

Casnewydd

66 Stryd y Doc Isaf, Casnewydd, N20 1EF

Ffôn: 0808 196 7273

Abertawe

YMCA, 1 Ffordd y Brenin, Abertawe, SA1 5JQ

Ffôn: 01792 630 180

Ffôn: 0808 196 7273

Wrecsam

BAWSO, 33 Heol Grosvenor, Wrecsam, LL11 1BT

Ffôn: 07977234198